

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Tachwedd 23: Cynhelir Cymdeithas Undebol Deiniolen am 7.00 o'r gloch yn Nhŷ Elidir yng nghwmni Dr Robin Parry, Llanberis. Teitl ei sgwrs fydd 'Cerrig Difyr', a does a wnelo'r pwnc ddim â'r byd meddygol!

Dydd Sul, Tachwedd 29: Cynhelir oedfa am 10.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Dafydd Ll Hughes, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Tachwedd 27: CIC am 7.00 o'r gloch.

Sul, Tachwedd 29: Gwasanaethir am 10.00 o'r goch gan Mr Ifor Glyn Efans, Capel Curig. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg W R Williams, Y Felinheli.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 29: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Tachwedd 29: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch, a bydd yr oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Gareth Edwards, Deganwy.

Y mis nesaf - Deiniolen

Tachwedd 22

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Tachwedd 29

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Rhagfyr 6

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Rhagfyr 13

5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

CARMEL

Dydd Llun, Tachwedd 23: Cynhelir y Te Bach yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Tachwedd 27: Cynhelir 'Dwylo Prysor' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Tachwedd 29: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Oedfa am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Tachwedd 27: Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Tachwedd 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Tachwedd 29

10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W Williams

Rhagfyr 6

10.00 a.m. - Mr Edward Morris Jones
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Nadolig yng ngofal Mr John H Hughes a Pharti Bytholwyrdd

Rhagfyr 13

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
4.00 p.m. - Oedfa Garolau Undebol yn Eglwys Sant Padarn

Gronlyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 659: Dydd Sul, 22 Tachwedd, 2015

Cau ar y Sul

'Oherwydd diffyg cefnogaeth ar ddydd Sul mae'r pwyllgor wedi penderfynu na fydd y lle hwn yn agor ar y Sul o hyn allan.' Hawdd fyddai tybio mai at bwyllgor rhyw gapel neu'i gilydd y cyfeirir yn yr hysbysiad a osodwyd ar ffenestr un o adeiladau'r dre'. Ond yn yr achos arbennig hwn nid pwyllgor capel sydd wedi ei orfodi i beidio ag agor y drws ar y Sul ond pwyllgor un o glybiau Caernarfon, yr Ex-Service Club neu hen glwb y Lleng Brydeinig ar ben Stryd Llyn. Os yw selogion y clwb yn chwilio am le i fynd ar nos Sul rwy'n siwr y byddai yna groeso cynnes iddynt rownd y gornel i'r clwb, yng nghapel Caersalem ar Stryd Garmon (sydd gyda llaw ar fin ailagor wedi'r gwaith adnewyddu a wnaed arno).

Byddai llawer o aelodau eglwysig yn cydymdeimlo â phwyllgor y clwb gan gyfaddef eu bod hwythau hefyd yn gweld diffyg cefnogaeth i oedfaon a gweithgareddau eu capel neu eglwys leol. Mae gormod o lawer ohonom wedi gweld capeli'n cau, ac yn amlach na heb diffyg cefnogaeth i'r achos yw un o'r rhesymau cyntaf a roddir dros gau'r drws a dod â'r cyfan i ben.

Pe byddai'r selogion yn cefnogi eu clwb ni fyddai raid cau. A phe byddai'r aelodau yn cefnogi gweithgareddau'r capel, ni fyddai raid cau'r drws hwnnw chwaith. Ond tybed ai'r duedd i feddwl yn y ffordd honno yw un o'r prif resymau dros yr argyfwng sy'n wynebu ein capeli? Onid camgymeriad

yw meddwl am gapel neu eglwys fel rhywbeth i'w gefnogi? Mae byd o wahaniaeth rhwng gweithgaredd neu glwb a gefnogwn a chymdeithas y perthynwn iddi (a'r perthyn yn fwy o berthyn i deulu nag o ddiddordeb y mae criw o bobl yn ei rannu).

Os mai rhywbeth y mae pobl yn ei gefnogi yn unig yw'r capel a'i waith, ni ddylem synnu o weld y gefnogaeth honno'n pallu ar brydiau. Mae'n rhywydd iawn i bobl golli diddordeb yn y pethau a gefnogant. Mae pethau newydd yn ddigon naturiol yn mynd â'u bryd ar wahanol gyfnodau. Prin iawn yw'r bobl sy'n glynu wrth yr un diddordebau a'r un gweithgareddau am oes. Wrth i'w hamgylchiadau personol a theuluol newid daw pethau newydd i hawlio eu sylw a'u cefnogaeth.

Ond nid clwb na chymdeithas fel yr un gymdeithas arall yw eglwys ond teulu o bobl sydd trwy ffydd yng Nghrist wedi eu gwneud yn frodyr a chwiorydd i'w gilydd. Nid ein cefnogaeth ni i'r capel a'r gwaith yw'r peth cyntaf na'r peth pwysicaf, ond cefnogaeth Duw i ni. Y peth mawr yw ei gariad ef atom a'i drugaredd a'i gwnaeth yn bosibl i ni fod yn rhan o'i deulu - yn blant iddo - er gwaethaf ein holl feiau mawr. Nid cefnogi'r capel a wnawn, ond byw fel aelodau o deulu Duw ei hun. Ac nid gweithgaredd i'w gefnogi mo'r oedfa, ond cyfle newydd o hyd i addoli Duw ac i ddiolch am ei gariad a'i ofal. Mae gobaith i gapel ac eglwys pan fo pobl yn gweld hynny.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 dan arweiniad y Gweinidog a Mrs Susan Williams. Yn ystod yr oedfa cyflwynir copi o *beibl.net 360 Stori* i deuluoedd yr Ysgol Sul.

Bydd yr oedfa yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch yng ngofal Mr Robert Morris, Penygroes.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 3.15 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd hon yn Oedfa Fedydd, ac estynnir croeso cynnes i Keith a Rhian Williams a'u teulu i'r oedfa i dystio i fedydd eu mab bach, Hari Gwilym.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein dymuniadau gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwy iawn â theulu Mrs Gwyneth Roberts, Merddyn Coch, Llanberis a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ddoe, dydd Sadwrn, Tachwedd 21. Gweddiwn y caiff ei phriod Mr Idwal Lloyd Roberts a'r teulu cyfan nerth a chysur Duw dros y dyddiau nesaf.

Cyflwyno Beiblau

Yn ystod yr Oedfa Deulu yn Capel Coch heddiw cyflwynir copi o *beibl.net 360 Stori* i deuluoedd yr Ysgol Sul yn hodd gan yr Ysgol Sul. Hwn ydi'r Beibl lliw newydd a gyhoeddwyd y mis hwn.

Panel Diogelwch

Cynhelir Noson Hyfforddiant y Panel Diogelwch Plant yng Nghapel Penuel, Bangor am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Rhagfyr 2.

Mae'r hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer athrawon Ysgol Sul, arweinwyr clybiau plant ac ieuencid, ac unrhyw un sy'n ymwneud ag oedolion bregus o fewn yng ngwaith yr eglwysi.

Gobeithio'n fawr y bydd cymaint â phosibl yn medru dod i'r cyfarfod hwn.

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig yn Capel Coch ddydd Mawrth diwethaf a gwnaed elw o £617.65 tuag at Gronfa Cynnal a Chadw Capel Coch.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n brysur yn paratoi ar gyfer y Ffair unwaith eto, ac i bawb a fu'n gofalu am y gwahanol fyrddau gwerthu.

Diolch hefyd wrth gwrs i bawb a ddaeth yno i gefnogi'r Ffair. Gwerthfawrogwn y gefnogaeth yn fawr.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Lis Owen, 10 Rhydfadog, Deiniolen o glywed am farwolaeth ei brawd Derek Pleming, Ffordd Coed Mawr, Bangor.

Cydymdeimlwn hefyd â Thomas John ac Eileen Roberts, 81 Maes Padarn, Llanberis yn eu profedigaeth o golli brawd Eileen, Fred Evans, Bangor yr wythnos ddiwethaf.

A chydymdeimlwn â Mrs Doris Roberts, Fron Oleu, Llanberis yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer. Mrs Glenys Salisbury yng Nghartref Preswyl Plas Garnedd, Llanberis.

Boed i'r teuluoedd hyn a phob teulu arall sy'n wynebu stormydd galar brofi nerth a diddanwch Duw yng ngobaith Efengyl Iesu Grist.

Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig flynyddol Capel Bethlehem yn y festri am 6.30 o'r gloch, nos Fawrth, Rhagfyr 1. Bydd croeso cynnes i bawb.

Calendr Adfent

Mae pob math o galendrau Adfent yn y siopau eleni eto. Does gan y rhan fwyaf ohonyn nhw ddim i'w wneud â'r Adfent na'r Nadolig. Mae ambell un yn dangos golygfeydd o Stori'r Geni, ond prin iawn ydyn nhw. Mae ambell i siop yn gwerthu calendr Adfent a wnaed gan y *Meaningful Chocolate Company*. Mae'r cwmni'n honni mai dyma'r unig galendr Adfent siocled sy'n dangos stori'r Geni ac sydd hefyd yn Fasnach Deg ac yn rhoi cyfran o'i elw i elusennau. Holwch amdanyh nhw yn y siopau os byddwch chi'n prynu calendr Adfent eleni.

Myfyrdod

Fe'n brawychwyd gan yr ymosodiadau ym Mharis nos Wener, Tachwedd 13. Bu farw 130 hyd yma o ganlyniad i'r derfysgaeth honno. Fe gawsom ein hatgoffa hefyd nad ym Mharis yn unig y mae pobl a phlant yn dioddef o ganlyniad i drais a ffrwydrion a bomiau. Dyma gyfeithiad y Parchg Denzil John, Caerdydd o fyfyrdod a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf.

Myfyrdod ar alar yn Nhachwedd

Nid dros Paris y dylem weddio, ond y byd – byd lle bu Beirut yn crynu dan fom yn chwalu, deuddydd cyn Paris ond nad yw'n cael sylw yn y wasg; byd lle ffrwydrodd bom mewn angladd yn Baghdad ac na wnaeth statws unrhyw berson ar y we enwi Baghdad, am na fu 'run person gwyn farw yn y tân yno.

Gweddiwch dros y byd sy'n beio argyfwng ffoaduriaid am ymosodiad terfysgwyr. Byd sy'n methu gwahaniaethu rhwng y sawl sy'n ceisio dianc a'r person fel chi a fi.

Gweddiwch dros y byd lle mae pobl yn cerdded ar draws gwledydd am fisoedd ond i glywed nad oes ganddynt unman i fynd.

Rhannwch weddi dros Baris ar bob cyfrif ond gweddiwch hefyd, dros bobl byd nad oes iddynt weddi, dros y sawl nad oes ganddo gartref i'w amddiffyn – dros fyd sy'n chwalu ym mhob congrl ac nid yn y tyrrau a'r caffis sydd mor gyfarwydd i ni.

Karuna Ezara Parikh cyf DIJ